**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 003 – Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

## Trosolwg o Uned 003

Yn Uned 003, buom yn archwilio agweddau hanfodol ymarfer proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Roedd hyn yn cynnwys **deall ein rolau swydd, cyfrifoldebau** a'r **ddyletswydd gofal** sy'n ofynnol yn ein proffesiwn. Fe wnaethom ymchwilio i **godau ymddygiad** a **phroffesiynoldeb**, gan ddysgu sut i reoli **cyfrinachedd** a **chyfyngiadau** ein rolau. Gwnaethom hefyd ganolbwyntio ar bwysigrwydd **gwaith tîm** a **chydweithio aml-asiantaethol**, **trin gwybodaeth** yn gywir, a'r angen am **ddatblygiad proffesiynol parhaus**.

Roedd themâu allweddol fel **goruchwylio, gwerthuso**, a **gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol** a'r **iaith Gymraeg** hefyd yn rhan o'n dysgu.

**DD1: Deall ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

- Ydw i'n gallu rhestru **cyfrifoldebau** ac **atebolrwydd proffesiynol** sy'n ofynnol yn y sector blynyddoedd cynnar, gan gynnwys **fframweithiau deddfwriaethol** perthnasol a **chodau ymddygiad**?
- Ydw i'n deall pwrpas **disgrifiadau swydd** a **manylebau person** wrth ddiffinio disgwyliadau a chyfyngiadau mewn rolau blynyddoedd cynnar a gofal plant?
- Ydw i'n gallu egluro **pwysigrwydd** cydnabod a chadw at **gyfyngiadau rolau** a **chyfrifoldebau** mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar?
- Ydw i'n gwybod **sut** a **phryd** i geisio **cymorth ychwanegol** mewn sefyllfaoedd **y tu hwnt i'm rôl** ac a ydw i'n gyfarwydd â'r **polisïau** a'r **gweithdrefnau** yn fy ymarfer?
- Ydw i'n gallu adnabod sefyllfaoedd pryd mae angen **roi gwybod am arferion anniogel** neu **sy'n mynd yn groes i'r** Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol?
- Ydw i'n deall y cysyniad o **'ddyletswydd gofal'** a pham ei bod hi'n bwysig bod yn **agored** ac yn **onest** wrth ymarfer o ddydd i ddydd?
- Ydw i'n cydnabod yr angen am **atebolrwydd** am **ansawdd** fy ymarfer a phwysigrwydd **myfyrio** ar gyfer **twf proffesiynol**?
- Ydw i'n deall sut i gynnal **cyfrinachedd** ac adnabod **sefyllfaoedd** lle mae'n rhaid rhannu gwybodaeth gyfrinachol?
- Ydw i'n gallu **cydbwyso dyletswydd gofal** â **hawliau plant a theuluoedd**, yn enwedig mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â **gwrthdaro** neu **gyfyng-gyngor**?



**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 003 – Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

## Trosolwg o Uned 003

Yn Uned 003, buom yn archwilio agweddau hanfodol ymarfer proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Roedd hyn yn cynnwys **deall ein rolau swydd, cyfrifoldebau** a'r **ddyletswydd gofal** sy'n ofynnol yn ein proffesiwn. Fe wnaethom ymchwilio i **godau ymddygiad** a **phroffesiynoldeb**, gan ddysgu sut i reoli **cyfrinachedd** a **chyfyngiadau** ein rolau. Gwnaethom hefyd ganolbwyntio ar bwysigrwydd **gwaith tîm** a **chydweithio aml-asiantaethol**, **trin gwybodaeth** yn gywir, a'r angen am **ddatblygiad proffesiynol parhaus**.

Roedd themâu allweddol fel **goruchwylio, gwerthuso**, a **gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol** a'r **iaith Gymraeg** hefyd yn rhan o'n dysgu.

**DD2: Gwybod sut i ddatblygu a chynnal partneriaethau gwaith effeithiol gydag eraill ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant.**

- Ydw i'n gallu egluro **egwyddorion gweithio mewn partneriaeth** ag eraill yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant?
- Ydw i'n ymwybodol o amrywiaeth y **rolau gweithwyr proffesiynol** ac **eraill** ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant?
- Ydw i'n deall **pwysigrwydd gwaith aml-asiantaethol** yn y maes hwn?
- Ydw i'n gallu adnabod ffyrdd o **ddatblygu perthnasoedd da** a **meithrin ymddiriedaeth** gyda chydweithwyr, gofalwyr, teuluoedd a phlant?
- Ydw i'n deall **pwysigrwydd** parchu **amrywiaeth** a **gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol ac ethnig** wrth weithio mewn partneriaeth?

**DD3: Gwybod sut mae gwaith tîm effeithiol yn cefnogi ymarfer da ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant, chwarae ac iechyd a gofal cymdeithasol.**

- Ydw i'n gallu rhestru'r gwahanol **fathau o weithio mewn tîm** a disgrifio sut y gall timau fod yn wahanol o ran eu **strwythur**, eu **pwrpas**, a'u **cyfansoddiad**?
- Ydw i'n gwybod yr **egwyddorion craidd** sy'n sail i waith **tîm** effeithiol?
- Ydw i'n gallu egluro sut mae **gwaith tîm effeithiol** yn cyfrannu at **les** plant a'u teuluoedd / gofalwyr?

**DD4: Gwybod sut i drin gwybodaeth yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant.**

- Ydw i'n deall beth yw ystyr y termau **'trin gwybodaeth'** a **'diogelu data'**?
- Ydw i'n gallu adnabod y **ddeddfwriaeth** a'r **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** sy'n ymwneud â thrin gwybodaeth, gan gynnwys **storio, cofnodi, cyfrinachedd a rhannu**?
- Ydw i'n gwybod beth yw **'systemau diogel ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth'**, pam ei bod yn bwysig eu cael mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant, a **nodweddion systemau storio gwybodaeth â llaw ac electronig** sy'n helpu i sicrhau diogelwch gwybodaeth?
- Ydw i'n deall pa **wybodaeth** sydd angen ei chofnodi, ei hadrodd, a'i storio, a sut i gofnodi'r wybodaeth hon gyda **chywirdeb, eglurder, perthnasedd**, a lefel briodol o **fanylder** yn amserol?
- A allaf wahaniaethu rhwng **ffaith, barn** a dyfarniad wrth gofnodi gwybodaeth?
- Ydw i'n deall pwysigrwydd **rhannu gwybodaeth wedi'i chofnodi** gydag unigolion ac yn gwybod **pryd** a **pham** na fyddai hyn yn gallu digwydd?

**CBAC Lefel 2 – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**

# Uned 003 – Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

## Trosolwg o Uned 003

Yn Uned 003, buom yn archwilio agweddau hanfodol ymarfer proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Roedd hyn yn cynnwys **deall ein rolau swydd, cyfrifoldebau** a'r **ddyletswydd gofal** sy'n ofynnol yn ein proffesiwn. Fe wnaethom ymchwilio i **godau ymddygiad** a **phroffesiynoldeb**, gan ddysgu sut i reoli **cyfrinachedd** a **chyfyngiadau** ein rolau. Gwnaethom hefyd ganolbwyntio ar bwysigrwydd **gwaith tîm** a **chydweithio aml-asiantaethol**, **trin gwybodaeth** yn gywir, a'r angen am **ddatblygiad proffesiynol parhaus**.

Roedd themâu allweddol fel **goruchwylio, gwerthuso**, a **gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol** a'r **iaith Gymraeg** hefyd yn rhan o'n dysgu.

## DD5: Deall pwysigrwydd cynnal proffesiwn gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

- Ydw i'n deall y cysyniad o **fodelau rôl cadarnhaol** yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant?
- Ydw i'n gallu egluro pam ei bod yn **bwysig peidio ag ymddwyn mewn ffordd**, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gweithle/lleoliad, a fyddai'n cwestiynu'r **addasrwydd i weithio** yn y proffesiwn blynyddoedd cynnar a gofal plant?
- Ydw i'n deall y **berthynas** rhwng defnyddio **cyfryngau cymdeithasol** ac **ymddygiad personol**, a beth yw **camddefnyddio** cyfryngau cymdeithasol a **goblygiadau** hyn ar ymarfer?
- Ydw i'n gallu egluro pam ei bod yn **bwysig peidio â** ffurfio **perthnasoedd amhriodol** â phlant, eu teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr ac eraill?
- Ydw i'n deall pam ei bod hi'n bwysig **cydnabod** a defnyddio'n sensitif, **y pŵer sy'n deillio o'ch rôl** chi wrth weithio gyda phlant, eu teuluoedd/gofalwyr a **pheidio** ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n **cam-ddefnyddio**'r pŵer hwn?

## DD6: Gwybod sut mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cyfrannu at ymarfer proffesiynol.

- Ydw i'n deall beth yw ystyr **'Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)'** a'i ddeddfwriaeth a'i safonau cysylltiedig?
- Ydw i'n ymwybodol o **Safonau'r Gymraeg** a'u pwysigrwydd?
- A allaf **werthuso** fy **ngwybodaeth, dealltwriaeth** ac **ymarfer** fy hun yn erbyn safonau a gwybodaeth berthnasol?
- Ydw i'n deall cyfrifoldebau **cyflogwyr** a **gweithwyr** ar gyfer **datblygiad proffesiynol parhaus** a'r **cyfleoedd dysgu** sydd ar gael iddyn nhw?
- Ydw i'n gwybod sut i **gael gafael ar wybodaeth** a'i **defnyddio** i gefnogi fy rôl a **chymhwyso dysgu** i sefyllfaoedd newydd?
- Ydw i'n deall pwysigrwydd **ceisio** a **dysgu o adborth** ar ymarfer gan blant, eu teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr ac eraill?
- Ydw i'n gyfarwydd â'r cysyniad o **'ymarfer myfyriol'**, pam ei fod yn **bwysig**, a **sut mae'n cael ei ddefnyddio** wrth **oruchwylio** ac **arfarnu**?
- Ydw i'n gallu egluro **effaith goruchwyliaeth effeithiol, ymarfer myfyriol**, a **chyfleoedd dysgu** perthnasol ar **lesiant** plant a'u teuluoedd/gofalwyr?
- Ydw i'n gwybod lle mae angen **llythrennedd, rhifedd** a **sgiliau digidol** i gefnogi ymarfer proffesiynol, a sut i **ddatblygu'r** sgiliau hyn?
- Ydw i'n gallu adnabod ffyrdd o ddatblygu fy **sgiliau iaith Gymraeg** er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr?




act.

This document is available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

acttraining.org.uk